CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**09.01.25**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol:** Robin Jones RJ(Cadeirydd) Thomas Arfon Jones TAJ; Gwyn Williams GW,John A Jukes JAJ; Dafydd Arthur Williams DAW; Elryn Owen EO; John Owen Jones JOJ; Llinos Medi LLM; Emma Young EY; Rachael Young RY<br><br>**Ymddiheuriadau:** IW; DP: AR<br><br>**Mynychu:** Cyng Ken Hughes; SWR<br><br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi yr ymddiheuriadau uchod. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br><br>Ni ddaatganwyd unrhyw ddiddordeb |
| **3** | **Cofnodion 07.11.24**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 07.11.24 fel rhai cywir (EO/DAW)<br><br>**Materion yn Codi**<br>**Cyflenwad Dwr yng Ngharmel –** adroddodd y Clerc bod LLM MP wedi cael ymateb gan Dwr Cymru a'i bod wedi rhannu hefo JOJ i'w rannu ymhellach gyda thrigolion Carmel. Cytunwyd i'r Clerc anfon copi at bawb. Yn dilyn trafodaeth nodwyd nad yw'n dderbyniol bod cyflenwad yn cael ei dorri yn llawer rhyw aml. Cytunwyd i wahodd swyddog o Dwr Cymru atom i egluro'r sefyllfa'n well. Clerc i weithredu. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn **– 09.01.25** |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**Adolygu'r Rhagolygon Cyllid a gosod y Praesept.**<br>Nodwyd bod rhan helaeth o'r cyfarfod hwn wedi ei glustnodi ar gyfer cytuno rhagolygon 2025-26 mewn manylder, ac o ganlyniad, gosod praesept 2025-6 erbyn y terfyn amser 5 Chwefror.<br><br>Rhoddodd y Clerc eglurhad o wariant ar y sgrin fawr er hwylusotd. Aethpwyd drwy'r llinellau gwariant yn fanwl gan addasu fel bo'r gofyn ac mewn cytundeb.<br>Yn dilyn cwblhau hyn trafodawyd y Praesept. Fel pob blwyddyn nodwyd bod cyfrifodebau ariannol i gadw mwynderau cymunedol yn parhau i gynnyddu. Nodwyd fel enghraifft cynnydd mewn costau cynnal a chadw mynwentydd a chostau annisgwyl eleni o drwshio/adnewyddu cyfarpar y Caffi. Yn dilyn trafodaeth fanwl cynigiodd JAJ i godi'r praesept 10% yn unol a phenderfyniadau y blynyddoedd diweddar. Byddai hyn yn golygu codiad oddeutu £4 y flwyddyn i anheddau Band 'D'. Eilwyd gan GW ac fe gytunwyd yn unfrydol. Nodwyd y pwysigrwydd i'r aelodau gyfeirio at y ffeithiau uchod pe baent yn cael unrhyw gwestiynau/heriau gan y gymdogaeth am codi'r praespet. Clerc i weithredu'r gwaith papur perthnasol o fewn amserlen CSYM<br><br>**Lwfans Aelodau**<br>Cylchredwyd ffurflenni hawlio lwfans gyda'r gyfarwyddyd i'w dychwelyd i'r Clerc mor fuan a phosib. . |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau ers 7.11.24**<br>• Cyflog Clerc – Tachwedd = £676.09 yn cynnwys 3 x ZOOM<br>• Cyflog Clerc – Rhagfyr = £676.09 yn cynnwys 3 X ZOOM<br>• Bella Kennet – costau HWB (ad-dalu gan Loteri £246.19<br>• Cae Gofeb Cystadleuaeth Golff - £50<br>• Gareth Parry – paentio Cae Gofeb £560<br>• Scottish Power Uned 1 - £76.50<br>• Sydna Roberts costau HWB (ad-daliad gan Loteri ) £56.13<br>• Scottish Power Uned 2 £77.89<br>• Scottish Power Coeden Dollig £172.21<br>• Ysgol Llan – rhodd gan Clwb Bowlio £100<br>• MSI Alarms – Caffi £120<br>• Scottish Power – cosb taliad hwyr Uned 1 - £10<br>• Scottish Power CPD - £174.42<br>• OTS UK Lts – gosod ffriwr Caffi - £243<br>• Scottish Power Uned 1 - £167.01 |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | • HJT Electricals – trwsio llif oleuadau £136.80<br>• Scottish Power Uned 2 – £64.60<br>• British Gas – trydan Clwb Bowlio £21.72<br>**Biliau cyfredol**<br>AE ac AT Lewis – infois torri gwair Mai – Hydref 2024 £5838.00<br>Rhys Williams – Infois torri gwaith 2024 £1905.00<br><br>Rhoddwyd caniatad i'r Clerc drosglwyddo arian o'r cyfrif wrth gefn os bydd gofyn.<br><br>Cyfrif Cyfredol: £15067.14<br>Cyfrif Cadw: £ 38962.28 |
| **6** | **Materion Cynllunio -** dim i la6 |
| **7.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –**<br>Adroddodd KH ar bwysau ariannol ar gyllideb CSYM, rhanol oherwydd bod y boblogaeth hyn yn cynnuddu ar yr Ynys a gofynion gofal yn fwy. O ganlyniad bydd modereiddio gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion i gwrdd a'r anghenion hyn.<br>O ran gwasanaeth addysg, mae cynnydd yn y nifer o ddisgyblion Uwchradd sy'n cael eu gwahardd.<br>Adran tai – nododd bod 900 ar restr aros yr Ynys.<br><br>Adroddodd yr Aelod Seneddol ar ei hymdrechion i geisio diweddariad ar ysefyllfa yn y Wylfa. Mae'n holi'r APPG (All-Party Parliamentary Group) ar Ynni Niwcliar – a oes cynlluniau pendant? ; pa dechnoleg sydd dan sylw?; beth ydy'r amserlen.? Mae hefyd wedi cyflwyno cwestiynau i GBN (Great British Nuclear) sy'n gyfrifol am yrru prosiectau newydd niwcliar. |
| **8.** | **Materion Safleoedd**<br>**Unedau Tan y Foel –** cyfarfod hefo Rhys Jones wedi ei drefnu ar gyfer 27.1.25<br>**Safle'r Stesion –**. dim i law<br>**Lawnt Fowlio –** dim i law<br>**Clwb Peldroed –** dim i law<br>**Mynwentydd** – Clerc i holi am brisiau giatiau newydd./ glanhau'r giatiau presennol<br>**Cae Gofeb –** dim i law |
| ***Cytunwyd i ddechrau ein cyfarfodydd misol arferol am 6:30 o hyn ymlaen.***<br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8:45* | |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com